# Deall Ardystio Marwolaethau yng Nghymru

Gall marwolaeth rhywun sy'n agos atoch achosi gofid mawr a gall y camau rhwng y farwolaeth a'r claddu neu'r amlosgi fod yn brofiad llethol. Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi trosolwg o'r broses ar gyfer cofrestru marwolaethau yng Nghymru a chanllawiau ar yr hyn y dylid ei ddisgwyl pan fydd rhywun yn marw.

**Cam Un – Cyn y gellir Cofrestru'r Farwolaeth**

Bydd clinigydd cymwys (er enghraifft meddyg, nyrs neu barafeddyg) yn gwirio bod y person wedi marw. Mae'r union ffordd o wneud hyn yn gallu dibynnu ar leoliad y person adeg marwolaeth. Bydd meddyg sydd wedi eu gweld yn ystod eu bywyd (ymarferydd a fu'n gweini) yn cyfeirio'r farwolaeth naill ai at sylw Crwner Ei Fawrhydi i ymchwilio iddi, neu at sylw Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol Cymru ar gyfer craffu annibynnol.

Mae sawl rheswm pam y gall bod angen cyfeirio marwolaeth at sylw'r Crwner i ymchwilio iddi, gan gynnwys yn achos damweiniau, trawma, hunan-niweidio neu, yn syml, pan nad yw achos y farwolaeth yn hysbys. Nid oes angen cyfeirio'r mwyafrif o farwolaethau at sylw'r Crwner, a hyd yn oed pan fydd angen hysbysu'r Crwner, nid yw hyn bob amser yn golygu bod yna broblem neu fod angen archwiliad post-mortem.

Os nad oes angen cyfeirio'r farwolaeth at sylw'r Crwner, rhaid i'r meddyg ddrafftio Tystysgrif Feddygol Achos Marwolaeth ac anfon hon, ynghyd â manylion y perthynas agosaf a chopïau o'r nodiadau meddygol i'r Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol.

**Cam Dau – Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol Cymru**

Mae'r Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol yn darparu gwasanaeth craffu annibynnol yn achos pob marwolaeth sy'n digwydd yng Nghymru nad yw'n cael ei chyfeirio'n uniongyrchol at sylw'r Crwner i ymchwilio iddi. Y nod yw gwella diogelwch y cyhoedd, sicrhau bod tystysgrifau marwolaeth yn gywir, yn ogystal ag osgoi gofid diangen i unigolion mewn profedigaeth.

Wrth graffu ar farwolaeth, bydd y Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol yn adolygu'r cofnodion meddygol ac yn ystyried a oedd problemau mewn perthynas ag unrhyw elfen o'r gofal a ddarparwyd i'r ymadawedig. Yn ystod y broses hon, bydd y Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol hefyd yn siarad â'r perthynas agosaf neu'r teulu i egluro achos y farwolaeth ac i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt.

Bydd unrhyw bryderon a godir gan y perthynas agosaf neu'r teulu yn cael eu cyfeirio at sylw'r darparwr gofal neu'r Crwner i ymchwilio iddynt ymhellach os oes angen.

**Cam Tri – Cyfeirio'r Farwolaeth at sylw'r Cofrestrydd**

Pan fydd y Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol wedi craffu ar y farwolaeth a'r meddyg wedi llenwi'r Dystysgrif Feddygol Achos Marwolaeth, bydd y dystysgrif yn cael ei chydlofnodi gan yr Archwiliwr Meddygol a'i hanfon yn electronig at y Cofrestrydd yn ardal yr awdurdod lleol (rhanbarth) lle digwyddodd y farwolaeth. Bydd y Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol hefyd yn rhannu manylion cyswllt y perthynas agosaf neu'r teulu er mwyn i'r Cofrestrydd allu cynllunio ar gyfer cofrestru'r farwolaeth.

**Cam Pedwar – Cofrestru'r Farwolaeth**

Pan fydd y Cofrestrydd wedi derbyn y Dystysgrif Feddygol Achos Marwolaeth, gellir gwneud apwyntiad i gofrestru'r farwolaeth. Nod y Cofrestrydd yw cofrestru'r farwolaeth cyn pen pum niwrnod o dderbyn y Dystysgrif Feddygol Achos Marwolaeth gan y Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol.

**Cam Pump – Cynllunio'r Angladd**

Gall y broses o gynllunio'r angladd ddechrau cyn i'r farwolaeth gael ei chofrestru, a gall aelodau'r teulu siarad â'r Trefnydd Angladdau i drefnu i weld eu hanwyliad cyn y claddu neu'r amlosgi, pan fo'n bosibl gwneud hynny. Ar ôl i'r farwolaeth gael ei chofrestru, bydd y Cofrestrydd yn cyhoeddi ffurflen werdd sy'n cadarnhau y gall y Trefnydd Angladdau fwrw ymlaen â'r trefniadau ar gyfer claddu neu amlosgi.

**Yr Amserlen ar gyfer Ardystio Marwolaethau yng Nghymru**

Bydd pawb sy'n rhan o'r broses ardystio marwolaethau yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau y gellir cofrestru marwolaeth cyn gynted ag y bo modd ac i osgoi oedi pan fo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, gall materion fel mynediad at gofnodion meddygol, cyswllt â theuluoedd, gofynion tymhorol ac ymchwiliadau pellach gan y Crwner effeithio ar brydlondeb.

Cwblhau'r broses o ardystio marwolaeth cyn pen naw diwrnod yw'r nod. Fodd bynnag, dylid nodi y gall hyn gymryd mwy o amser mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft pan fo achos y farwolaeth yn gymhleth, neu pan nad yw gwybodaeth wedi cael ei darparu mewn modd amserol.

**Rhagor o wybodaeth**

Ni waeth beth yw'r rheswm pam y mae rhywun wedi marw, gall dod i delerau â'r hyn sydd wedi digwydd fod yn arbennig o anodd. Mae pobl yn profi galar mewn gwahanol ffyrdd ac efallai y bydd ar rai eisiau neu angen cefnogaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn. Mae rhagor o wybodaeth am gymorth a chefnogaeth ar gael ar wefan eich bwrdd iechyd lleol.

Mae gwefan Llywodraeth y DU yn cynnwys canllaw manwl am y camau ychwanegol sydd angen eu cymryd pan fydd rhywun yn marw, gan gynnwys hysbysu adrannau perthnasol y llywodraeth ac ymdrin ag ystad yr ymadawedig.